

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 16 Mai 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cynnwys

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru

C8 Rhodri Glyn Thomas: A oes unrhyw newidiadau diweddar wedi bod i swyddogaethau a chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru? (OAQ17656) [W]

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson): Ni fu unrhyw newidiadau diweddar i swyddogaethau a chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru. Fel y dywedais yn fy ateb i'ch cwestiwn tebyg cynharach, byddwn am adael i strwythur newydd cyngor y celfyddydau sefydlogi cyn ystyried pa newidiadau sydd eu hangen, os dim.

Y Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru

C9 Glyn Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch datblygu'r diwydiant cyfieithu yng Nghymru? (OAQ17651)

Jenny Randerson: Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn bwrw ymlaen â mentrau a'i nod yn y tymor hir yw sicrhau bod digon o gyfieithwyr o safon ddigon da. Yn benodol, mae'n cydweithio â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru i gynhyrchu strategaeth i ddatblygu'r diwydiant cyfieithu. Yn ogystal, caiff y mater ei ystyried yn adroddiad y Pwyllgor Diwylliant ar y Gymraeg, y byddaf i yn ymateb iddo.

Tynnwyd cwestiwn 10 (OAQ17612) yn ôl.

Grŵp Diogelwch ar y Mynyddoedd Cymru

C11 Alun Pugh: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn sgil cyfarfod cyntaf grŵp diogelwch ar y mynyddoedd Cymru? (OAQ17604)

Jenny Randerson: Mae fforwm gweithgareddau awyr agored Cymru wedi cynnal tri chyfarfod erbyn hyn, sydd wedi bod yn adeiladol iawn, ac wedi cynnal trafodaethau cadarnhaol am y ffordd orau o ymdrin â'r materion. Disgwyliaf y caf adroddiad dros dro ganddo tua diwedd y mis hwn.

Twf Cynaliadwy Ffilm, Teledu a'r Cyfryngau Newydd

C12 David Melding: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i lunio strategaeth ar gyfer twf cynaliadwy ffilm, teledu a'r cyfryngau newydd yng Nghymru? (OAQ17610)

Jenny Randerson: Mae Cyllid Cymru yn datblygu cynllun busnes ar gyfer cronfa ffilm Cymru, a fyddai'n helpu i hyrwyddo a hybu ffilmiau ardderchog drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw darlledu wedi'i ddatganoli, ond yr wyf yn cydweithio'n agos â'r darlledwyr, er enghraifft, ar ddrafft y

Mesur Cyfathrebu, i'n galluogi i hybu buddiannau Cymru yn ein cysylltiadau â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Stadiwm y Mileniwm ccc

C13 Owen John Thomas: A yw'r Gweinidog yn rhoi cyngor i Stadiwm y Mileniwm ccc wrth iddo drafod â chyrrff chwaraeon sydd am ddefnyddio'i gyfleusterau? (OAQ17634)

Jenny Randerson: Nac wyf. Cwmni annibynnol yw Stadiwm y Mileniwm ccc sy'n rheoli ei faterion ei hunan, gan gynnwys trafodaethau ynglŷn â defnyddio ei gyfleusterau.

Ymgyrchoedd i Hybu Cymru

C14 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y rhan y mae celfyddyd ac artistiaid Cymreig yn eu chwarae mewn ymgyrchoedd i hybu Cymru? (OAQ17633)

Jenny Randerson: Mae celf Cymru a'r celfyddydau yn gyffredinol yn arfau defnyddiol wrth hybu Cymru gartref a thramor. Mae cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn ymwybodol o hynny. Er enghraifft, elfen allweddol o strategaeth twristiaeth ddiwylliannol Bwrdd Croeso Cymru yw'r angen i gynnal a hybu diwylliant Cymru. Mae'r bwrdd croeso yn defnyddio byd celfyddydau Cymru i hybu Cymru drwy ganolbwyntio, lle bo'n briodol, ar ddigwyddiadau, orielau neu wyliau penodol, yn ôl y farchnad darged.

Mae sawl cam gweithredu yn 'Creative Future: Cymru Greadigol' sy'n anelu at hybu Cymru drwy berfformiadau a chyfraniadau rhyngwladol. Mae hynny'n amrywio o gyflwyno cystadleuaeth newydd i Gymru sy'n canolbwyntio ar y ffurf ddynol, o'r enw Humanitas, i arolwg gan Gyngor Celfyddydau Cymru o bolisiau ariannu hybu gwyliau ac arddangosfeydd mawr dramor, drwy gydweithio â'r cyrff cyhoeddus diwylliannol eraill a noddir gan y Cynulliad.

Pêl-droed yng Nghymru

C15 Delyth Evans: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar statws pêl-droed yng Nghymru ar hyn o bryd? (OAQ17667)

Jenny Randerson: Mae pêl-droed yn boblogaidd dros ben yng Nghymru. Erbyn hyn mae mwy na 30,000 o fechgyn a merched sydd wedi'u cofrestru fel chwaraewyr pêl-droed ac mae 10,000 o hyfforddwyr cofrestredig. Mae pêl-droed menywod ymhlith y chwaraeon sy'n tyfu'n gyflymaf yng Nghymru.

Fis Hydref diwethaf, sefydlais fforwm pêl-droed i ystyried datblygiad pêl-droed yng Nghymru. Y nod yw sefydlu fframwaith strategol i ddatblygu pêl-droed Cymru yn y dyfodol i bobl ifainc. Disgwyliaf i'r fforwm roi adroddiad yn ôl i mi cyn hir.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad

Cynnyrch o Ogledd Cymru

C10 Alison Halford: Faint y mae'r Cynulliad yn ei wario ar hyn o bryd ar farchnata cynnyrch o ogledd Cymru? (OAQ17615)

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad (Carwyn Jones): Ni chedwir cofnodion yn rhanbarthol, ac felly nid yw'r wybodaeth y gofynasoch amdani ar gael.

Arferion Lles Anifeiliaid

C11 Brian Gibbons: Pa mor bwysig yw arferion lles anifeiliaid wrth hyrwyddo delwedd amaethyddiaeth Cymru? (OAQ17624)

Carwyn Jones: Ni all arddel arferion da o ran lles anifeiliaid ond bod er lles amaeth Cymru. Mae Cymru wrthi'n cydweithio â gweinyddiaethau eraill y DU i roi sawl cod lles anifeiliaid ar waith, a fydd—ar y cyd â chynlluniau sicrwydd megis da byw Cymru â gwarant fferm, sy'n hybu hwsmonaeth dda a magu anifeiliaid yn dda—yn gwella ansawdd cynnyrch Cymru a delwedd amaeth Cymru.

Cyswllt Ffermio yng Nghanol De Cymru

C12 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trefniadau i roi Cyswllt Ffermio ar waith yng Nghanol De Cymru? (OAQ17616)

Carwyn Jones: Hyd yn hyn, mae 87 o ffermwyr yn ardal Canol De Cymru wedi cofrestru am wasanaethau Cyswllt Ffermio.

Y Diciau mewn Gwartheg

C13 John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran y diciâu mewn gwartheg yng Nghymru? (OAQ17640)

Carwyn Jones: Yn y 12 mis hyd at ddiwedd mis Mawrth, cafodd mwy na 175,000 o wartheg mewn 2,280 o fuchesau eu profi yng Nghymru (sef 13 y cant o fuchesau Cymru), gan ganfod 127 o achosion newydd (69 ohonynt wedi'u cadarnhau). Cafwyd achosion newydd mewn ardaloedd sydd wedi bod yn 'lân' hyd yn hyn, sef de Ceredigion, canol Sir Gaerfyrddin, Sir Drefaldwyn a Sir Ddinbych. Mae mynd i'r afael â'r diciâu mewn gwartheg ymhlith ein blaenoriaethau, ac mae adnoddau milfeddygol ychwanegol yn cael eu cyfeirio at y cynnydd yn y clefyd.

Tynnwyd cwestiwn 14 (OAQ17673) yn ôl.

Iawndal Amaeth-ariannol yng Nghymru

C15 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar iawndal amaeth-ariannol yng Nghymru? (OAQ17646)

Carwyn Jones: Yr wyf wedi dadlau'n gyson bod Llywodraeth y DU yn hawlio'r cyfan o'r iawndal amaeth-ariannol sydd ar gael. Cefais fy siomi'n arw bod yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi penderfynu'n ddiweddar i beidio â thynnu rhagor o gyllid i lawr i gynorthwyo'r diwydiant da byw yng Nghymru.